







# EIN HECONOMÏAU LLEOL

## ASTUDIAETH ACHOS

MENTER GYMDEITHASOL
YM MRO FFESTINIOG



BCT Building Communities Trust
Ymddiriedolaeth Adeiladu Cymunedau

invest Local
buddsoddi Lleol

CRONFA GYMUNEDOL
COMMUNITY FUND

CWMNI BRO FFESTINIOG



Cant ac ugain o flynyddoedd yn ôl, roedd Blaenau Ffestiniog yn un o drefi ffyniannus Gogledd Cymru. Yma oedd canolfan cloddio llechi fwyaf y wlad a'r ail dref fwyaf yng Ngogledd Cymru, gyda phoblogaeth o oddeutu 13,000 o bobl a mwy mewn pentrefi cyfagos.

Fodd bynnag, wrth i'r diwydiant llechi ddirywio, bu gostyngiad o fwy na hanner yn y boblogaeth yn ystod yr ugeinfed ganrif i oddeutu 5,500 erbyn y cyfrifiad diwethaf. Mae Blaenau Ffestiniog yn un o'r ardaloedd tlotaf yng Nghymru, gyda'r cyflogau cyfartalog isaf yn unman yn y DU[1].

# HANES Y GWAITH CYMUNEDOL

Mae gan yr ardal hanes bywiog, hir o weithgareddau cymunedol, sy'n cynnwys amrediad eang o weithgareddau diwylliannol, gweithgareddau chwaraeon, gweithgareddau crefyddol a gweithgareddau lles. Yn ystod oddeutu'r ddeng mlynedd ar hugain diwethaf, mae elfennau o'r gweithgaredd hwn wedi datblygu yn sector gwirfoddol mwy ffurfiol.






Sefydlwyd menter gymdeithasol fawr gyntaf y dref, *Cwmni Seren*, yn ystod y 1990au er mwyn darparu cefnogaeth broffesiynol i oedolion gydag anawsterau dysgu fel rhan o raglen 'Gofal yn y Gymuned' Llywodraeth y DU.

Ar yr un pryd, sefydlwyd canghennau lleol o sefydliadau ehangach – *Barnardo's* a *Gisda* – er mwyn darparu cefnogaeth ar gyfer gwaith gyda theuluoedd ac ieuenctid, ac mae'r ddau wedi darparu cefnogaeth gymdeithasol hanfodol yn ystod yr ugain mlynedd diwethaf.

Yn ogystal, bu canolbwyntio tymor hirach ar fentrau cymdeithasol fel modd o adfywio a chreu budd economaidd sy'n cael ei berchnogi yn lleol. Ar ddechrau'r ganrif, sefydlwyd cwmni adfywio cymunedol o'r enw *Trawsnewid* mewn ymateb i ddod â gorsaf ynni niwlcear Trawsfynydd i ben.

Ym Mhenrhyndeudraeth gerllaw, sefydlwyd *Deudraeth Cyf* – cwmni cymunedol sy'n arbenigo mewn prosiectau technoleg newydd, a oedd wrth galon y gymuned gan ddod y pentref rhwydweithiol cyntaf yng Nghymru. Ym mhentref Llanfrothen, bu'r cyngor cymuned yn helpu i sefydlu menter gymdeithasol i redeg siop y pentref a sicrhau bod adeiladau fforddiadwy ar gael ar gyfer busnesau lleol eraill.

Pan gafodd ward Bowydd a Rhiw ym Mlaenau Ffestiniog ei gynnwys gan Lywodraeth Cymru yn ei raglen Cymunedau yn Gyntaf yn 2001, penderfynodd y grŵp lleol yn y Blaenau sefydlu cwmni cymunedol cyfyngedig drwy warant fel modd o ddatblygu prosiectau perthnasol.

Yn anarferol ar gyfer Cymunedau'n Gyntaf, yn ogystal â chefnogi grwpiau o dan anfantais, pwysleisiodd cynllun busnes Cwmni Cymunedau'n Gyntaf Blaenau ar ddatblygu prosiectau economaidd ac amgylcheddol. Roedd y Cwmni eisiau datblygu'r gwaith yr oedd mentrau cymdeithasol eisoes yn ei wneud yn lleol, gan gynhyrchu a chadw cyfoeth yn lleol, a darparu gwasanaethau lleol, cynaliadwy.

Gan fod y dirwedd leol eisoes yn denu ymwelwyr â diddordeb mewn gweithgareddau awyr agored a'r amgylchedd, roedd cyfle i ddatblygu prosiectau a fyddai'n trawsnewid ymddangosiad Blaenau a'r ardal yn gyffredinol, ynghyd â chyfrannu tuag at dwf twristiaeth.

Sefydlwyd dwy fenter gymdeithasol wahanol yn deillio o Gymunedau yn Gyntaf. Dechreuodd *Antur Stiniog* fel busnes beiciau mynydd ar lechweddau chwarel lechi'r Llechwedd ym Mlaenau Ffestiniog (lle mae wedi croesawu pencampwriaethau Beicio Mynydd i Lawr Allt y Byd), ac yn awr mae wedi cymryd y Ganolfan Groeso drosodd ac wedi sefydlu prosiectau eraill, yn cynnwys llwybr beicio o gwmpas y dref.

Y fenter arall yw'r *Dref Werdd*, sy'n canolbwyntio ar yr amgylchedd, gan gynnwys clirio rhododendron, glanhau afonydd, sefydlu ardaloedd cymunedol gwyrdd, yn ogystal â phrosiectau i leihau gwastraff bwyd, arbed ynni a chreu rhandiroedd. Mae gwaith y *Dref Werdd* wedi annog lefelau uchel iawn o gefnogaeth gan Lywodraeth Cymru. Yng Ngogledd Cymru, mae bron i draean o bob buddsoddiad o'r cynllun effeithiolrwydd ynni, sef Nyth, wedi bod ym Mro Ffestiniog.

Yn annibynnol oddi wrth y rhain, sefydlwyd menter gydweithredol yn 2010 gan breswylwyr ym mhentref cyfagos Llan Ffestiniog, sef *Pengwern Cymunedol*, er mwyn prynu a rhedeg y gwesty a'r dafarn leol. Roedd Y Pengwern, a oedd wedi cau ers 2009, yn rhan annatod o fywyd ym Mro Ffestiniog ers 1728 o leiaf.

Mewn pentref o oddeutu 300 o gartrefi, buddsoddodd oddeutu 200 o bobl leol dros £30,000 mewn cyfranddaliadau yn y fenter gydweithredol, Cymdeithas Ddiwydiannol a Darbodus a sefydlwyd gan *Pengwern Cymunedol*. Cafwyd yr arian i brynu'r ased ac ailagor y busnes (£187,000) drwy ymdrechion y gymuned ynghyd â grant gan Lywodraeth Cymru, wedi'i hwyluso gan y gymdeithas dai leol, sef *Tai Eryri* (sy'n awr yn rhan o *Grŵp Cynefin*).
Yn Ebrill 2011, ailagorodd y drysau ac mae'r fenter ar ôl hynny wedi mynd o nerth i nerth, gan ddenu ymwelwyr o bob rhan o'r byd. Erbyn 2016, roedd ei drosiant dros £200,000 y flwyddyn.

Yn fwy diweddar, mae pedair menter newydd wedi datblygu.

Ysgwyddodd **Ysgol y Moelwyn**, yr ysgol gyfun sy'n gwasanaethu Bro Ffestiniog, y cyfrifoldeb o redeg y ganolfan hamdden leol oddi wrth y cyngor sir mewn trosglwyddiad asedau. Mae'r busnes yn awr yn ffynnu, ac yn aml nid oes digon o le i ddarparu ar gyfer galw cynyddol.

Mae **Opera Cymru** yn cyflwyno gweithiau opera adnabyddus yn Gymraeg ac yn darparu cyfleoedd addysgol. Yn ddiweddar, bu 60 o fyfyrwyr ysgol o bedair o ysgolion uwchradd ym Meirionydd yn cydweithio ar berfformiad operatig.

Sefydlwyd **Cwmni Gwesty Seren** fel menter ar wahân gan *Cwmni Seren* i ddatblygu gwesty tair seren wedi'i hanelu at bobl gydag anableddau. Agorodd y gwesty ei drysau yn 2014 ac mae'r fenter yn llwyddiannus iawn, gan gyflogi 10 o bobl a chyfrannu tuag at y cynnydd sylweddol yn y nifer o dwristiaid sy'n aros yn lleol.

Mae **Cyfeillion Croesor** yn rhedeg caffi ac oriel gelf ym mhentref bychan Croesor, gan ddarparu ar gyfer twristiaid sy'n ymweld â'u dyffryn diarffordd.



## Cwmni Bro Ffestiniog

O ganlyniad i'r holl ddatblygiadau hyn, mae'n debyg fod mwy o fentrau cymdeithasol y pen o'r boblogaeth ym Mro Ffestiniog nag yn unman arall yng Nghymru.

Mae amrywiol weithgareddau'r mentrau hyn yn cynnwys: dau westy, siopau, bwytai, caffis, canolfan groeso, canolfan hamdden, gweithdy celf a chrefft, canolfan feicio mynydd, garddwriaeth, prosiectau arbed ynni, gweithgareddau addysgol a diwylliannol, prosiectau lleihau gwastraff bwyd a chynyddu ailgylchu, glanhau afonydd, gweithio gydag oedolion ag anghenion atodol, gwaith ieuenctid (yn cynnwys ymdrin â digartrefedd) a dysgu sgiliau amgylcheddol a sgiliau cyfryngau.

Mae deuddeg o fentrau cymdeithasol yr ardal wedi ymuno â'i gilydd i ffurfio rhwydwaith o dan faner cwmni cymunedol o'r enw *Cwmni Bro Ffestiniog*. Mae'r cwmni yn gweithredu yng nghymunedau Blaenau Ffestiniog, Trawsfynydd a Phenrhyndeudraeth a phentrefi gerllaw, sydd â phoblogaeth rhyngddyn nhw o oddeutu 8,000 o bobl. Nodau'r cwmni yw anelu at hyrwyddo cydweithrediad rhwng y mentrau cymdeithasol cyfansoddol, meithrin mentrau newydd a gweithio gyda busnesau bychain yn y gymuned.

Rhyngddyn nhw, mae'r mentrau sy'n aelodau o Gwmni Bro Ffestiniog yn cyflogi 150 o bobl leol. Maen nhw'n cynnig cyflogaeth barhaol ac yn darparu cyfleoedd gyrfa ar gyfer gweithwyr proffesiynol sy'n dymuno aros yn eu cymuned. Yn ogystal â darparu gwaith cyflogedig, mae'r mentrau hefyd yn creu cyfleoedd ar gyfer gwirfoddolwyr. Mae rhan helaethaf y rhai hynny sy'n cael eu cyflogi yn byw yn yr ardal ac yn gwario eu harian yn lleol, gan greu effaith lluosydd. Mae'r effaith hon yn cael ei chynyddu wrth i'r refeniw a'r elw sy'n cael eu cynhyrchu gan y mentrau gael eu gwario yn lleol neu'u hailfuddsoddi, gan wneud y mentrau yn fwy cynaliadwy yn yr hirdymor.

Dangosodd dadansoddiad diweddar o'u heffaith economaidd fod canran uchel o'u hincwm yn aros ac yn cylchredeg yn yr ardal. Am bob punt a dderbyniwyd fel grant neu fenthyciad, roedd 98 ceiniog yn cael eu gwario yn lleol, ar gyflogau yn bennaf. O'r 1.5 miliwn o bunnau ar wariwyd ar gyflogau, mae 53% yn cael ei gadw yn lleol. Roedd bron i hanner y gwariant ar nwyddau a gwasanaethau yn lleol.[2]



# Ei Wneud yn Gynaliadwy

Mae mentrau cymdeithasol lleol wedi tyfu'n raddol ac maen nhw wedi'u seilio ar strategaethau busnes eglur. Mae'r rhan fwyaf o'r mentrau mor hunangynaliadwy yn ariannol ag sy'n bosibl: un ai drwy fasnachu neu drwy dendro am gontractau, yn bennaf gan y sector cyhoeddus.

Nid yw rhai – fel *Pengwern Cymunedol*, *Antur Stiniog*, *Gwesty Seren* ac agweddau o waith *Cwmni Seren*, fel ailgylchu – yn dibynnu ar grantiau na chytundebau lefel gwasanaeth. Mae'r rhain yn fentrau masnachol yn llwyr sy'n cystadlu gyda busnesau lleol hollol breifat, yn ogystal â chydweithredu gyda nhw mewn rhai achosion (mae un fenter, *CellB*, yn bartneriaeth rhwng bwyty a thŷ bynciau sy'n cael ei redeg yn fasnachol a menter gymdeithasol, *Gwallgofiad*, sy'n rhedeg sinema a gweithgareddau ar gyfer pobl ifanc).

Wrth i'r sector cyhoeddus encilio yn ystod y blynyddoedd diweddar, mae gwaith mentrau cymdeithasol wedi dod yn fwy amlwg yn y gymuned ac yn fwy canolog at weithgareddau cymdeithasol allweddol. Mae'r rhai hynny sy'n rhedeg mentrau cymdeithasol yn awyddus i bobl ymuno â nhw i helpu rhedeg y gweithgareddau yn hytrach na bod yn dderbynwyr gwasanaethau, ac felly mae buddsoddiad mewn cyfathrebu wedi dod yn fwyfwy pwysig.

Mae *Llafar Bro*, papur newydd misol cymunedol sy'n cael ei redeg gan wirfoddolwyr, yn cael ei ddefnyddio ar gyfer cyfathrebu â'r gymuned ac yn y gymuned. Defnyddir Facebook a Twitter yn helaeth ac mae gan y prif fentrau cymdeithasol i gyd eu gwefannau eu hunain. Mae gwasanaeth darlledu digidol cymunedol, *BROcast Ffestiniog*, wedi cael ei lansio yn ddiweddar (facebook.com/BROcastFfestiniog).

Yn ogystal, mae'r cynnydd mewn gweithgareddau cymunedol wedi arwain at breswylwyr yn gwneud mwy gyda'i gilydd yn gyffredinol, sy'n helpu i hyrwyddo ysbryd cymunedol, ymdeimlad cymdogol ac ansawdd bywyd.

> "Ym mis Ionawr 2015, collais fy ngŵr a oedd yn dioddef o ganser, 12 mis yn unig ar ôl symud i Blaenau. Roeddwn i'n teimlo yn unig iawn, ar incwm cyfyngedig iawn a dyled trydan o £1,500. Treuliais y flwyddyn ganlynol yn bryderus ac isel iawn fy ysbryd, gan dreulio rhan fwyaf o'm hamser yn y gwely oherwydd na allwn i fforddio cynhesu'r tŷ. Clywais am Y Dref Werdd. Diolch i'w gwasanaeth nhw, rydw i'n ysgrifennu hyn mewn tŷ cynnes ac rydw i'n rhoi'r addurniadau Nadolig i fyny gyda gobaith am y flwyddyn newydd, ac adeg yma'r llynedd, ni fyddwn wedi credu bod hyn yn bosibl. Gwnaethon nhw i mi deimlo, nid yn unig y byddwn yn gallu ymdopi â bywyd wrth fynd ymlaen, ond fy mod hefyd yn rhan o gymuned gynnes a gofalgar."
>
> **Susan, Preswylwraig leol**

# DEALL EIN LLWYDDIANNAU

Ceir nifer o ffactorau y tu ôl i lwyddiant y gwaith ym Mlaenau Ffestiniog, ond y rhai allweddol yw:

## Cydnabod y pwysigrwydd o adeiladu cyfoeth

Drwy fabwysiadu dull integredig a chyfannol tuag at ddatblygu cymunedol, mae'r gwaith yn yr ardal yn cysylltu elfennau amgylcheddol, economaidd, cymdeithasol a diwylliannol y gymuned. Dyma beth mae'r rhan fwyaf o fentrau cymunedol yn hawlio eu bod yn eu gwneud, ond ym Mro Ffestiniog, mae gwneud y newid o ddarparu gweithgareddau sy'n cefnogi pobl mewn angen yn unig, a symud i greu mentrau sy'n cynhyrchu incwm, a darparu cyfleoedd hamdden ac adloniant, yn golygu bod yr hyn y maen nhw'n ei wneud yn apelio at gynulleidfa ehangach – pobl leol a thwristiaid – sydd wedyn yn creu mwy o gyfleoedd economaidd.

"Y bobl ifanc eu hunain sy'n gyfrifol am bopeth sydd wedi digwydd yn CellB a'r prosiect cymunedol, Gwallgofiad. Mae'r fenter wedi gwneud gwahaniaeth mawr ym mywydau pobl ifanc. Os ydych chi'n edrych ar y criw cyntaf a ddaeth yma yn ôl yn 2004-5, maen nhw yn awr wedi symud ymlaen i redeg adrannau dylunio, yn benaethiaid Theatrau ac mae un arall dechnegydd profiadol."

**Rhys Roberts, CellB**

## Defnyddio asedau lleol

Mae defnyddio asedau lleol er budd economaidd wedi bod yn ganolog i gynhyrchu cyfoeth yn yr ardal. Mae Blaenau Ffestiniog yng nghanol Parc Cenedlaethol Eryri, ardal sy'n denu ymwelwyr ar gyfer cerdded, seiclo a a'r golygfeydd. Yn hanesyddol, roedd twristiaid yn aml yn osgoi'r hen dref ddiwydiannol, ond wrth ddatblygu a hyrwyddo cyfleusterau'r dref, gwelwyd cynnydd yn y nifer o ymwelwyr.

Mae mentrau cymdeithasol lleol wedi datblygu perthynas symbiotig gyda'r buddsoddiad adnabyddus Zipworld yn y hen chwareli llechi. Roedd Zipworld yn ddibynnol ar ddefnyddio'r ffyrdd mynediad a adeiladwyd gan Antur Stiniog ar gyfer eu prif wifrau gwib, ac mae llawer o waith yn digwydd yn awr i sicrhau bod pobl leol, sy'n gweithio gyda'r ysgol a'r coleg, yn dysgu'r sgiliau i weithio yn y prif atyniadau twristiaeth, yn ogystal â cheisio sicrhau bod pobl sy'n cael eu denu i'r ardal gan Zipworld yn cael eu temtio i wario mewn atyniadau lleol eraill.

Mae'r cysylltiadau hyn wedi cael eu datblygu er gwaethaf strategaethau'r llywodraeth ar gyfer yr ardal, a oedd yn canolbwyntio yn gyfan gwbl ar fuddsoddwr allanol mawr ac yn anwybyddu'r niferoedd o fentrau lleol bychain a oedd eisoes yn gweithredu.

Yn ogystal, mae rhai o'r adeiladau na ddefnyddiwyd yn y dref wedi cael eu hailddefnyddio ar gyfer gweithgareddau busnes a gweithgareddau cymdeithasol – fel yr hen orsaf heddlu, sy'n awr yn CellB, caffi, sinema a thŷ bynciau a'r hen unedau diwydiannol yng nghanol y dref sy'n awr yn gaffi, siop a chanolfan groeso sy'n cael ei rhedeg gan y gymuned. Ar hyn o bryd, mae gwaith yn cael ei wneud ar Adeilad y Cyngor Tref yng nghanol y dref, gan weithio yn uniongyrchol gyda chyngor y dref, y *Cwmni Bro*, *Antur Stiniog*, *indycube* a *Busnes Cymdeithasol Cymru* i ddatblygu a dod â 'lle ar gyfer mentrau cymdeithasol' i galon y dref.

"Nid wyf yn ein gweld ni fel atyniad twristiaeth i ddweud y gwir. Rydym ni angen dangos i bobl, yn tydym? Balchder yn yr hyn sydd gennym. 'Rydw i'n byw ym Mlaenau Ffestiniog ac rydw i'n falch o hynny', wyddoch"

**Hefin Hamer, Antur Stiniog**

"Rydym yn creu diwylliant yn yr ardal sy'n hen fath o ddiwylliant o wneud pethau ar gyfer ein hunain, yn lle bod yn ddibynnol a chwyno, gwnewch rywbeth. Os ydym yn gwneud rhywbeth llwyddiannus yma, mae'n batrwm y gallai ardaloedd eraill ei ddilyn"

**Sel Williams**

## Pobl, cysylltiadau ac ymddiriedaeth

Wrth gwrs, yr asedau mwyaf yw pobl Bro Ffestiniog. Mae llawer o'r rhai hynny sy'n arwain mentrau wedi gweithio gyda'i gilydd ar y rhaglen Cymunedau'n Gyntaf yn yr ardal, fel gweithwyr cyflogedig a gwirfoddolwyr, gan ennill profiad a sgiliau gwerthfawr – ac roedd gan bron y cyfan ohonyn nhw eu gwreiddiau yn y gymuned ac roedden nhw wedi ymrwymo yn ddwfn yn yr ardal. Felly, yn awr mae nifer o bobl yn gweithio yn y dref sy'n arwain yn unol ag egwyddorion datblygu cymunedol.

Aeth y rhan fwyaf o bobl leol i'r un ysgol – Ysgol y Moelwyn – sy'n golygu bod cysylltiadau agos a lefelau uchel o ymddiriedaeth rhwng arweinwyr y gwahanol sefydliadau. Heb y lefelau hyn o ymddiriedaeth, mae'n dra annhebygol y byddai gwaith yn Ffestiniog wedi mynd mor bell neu mor gyflym. Mae parodrwydd pobl i weithio gyda'i gilydd heb warantau, buddsoddi eu harian eu hunain, rhannu a hyrwyddo gweithgareddau'r naill a'r llall yn dod o barodrwydd i gredu ym mwriadau a chymwyseddau'r naill a'r llall a all ddod gyda lefelau cryf o gredu yn y naill a'r llall.

Ar gyfer ardal lle mae'r Gymraeg yn gryf iawn fel a geir Bro Ffestiniog, bu'r cyfle i ddatblygu'r gymuned ac arwain newid yn lleol tra'n gweithio yn Gymraeg yn 'atyniad' mawr. Yr iaith Gymraeg yw iaith pob dydd rhan helaethaf o'r bobl yn yr ardal heddiw ac mae'r Gymraeg wedi bod yn gyfrwng pwysig wrth drosglwyddo hunaniaeth ac agweddau cymunedol o'r gorffennol. Mae'n anodd mesur dylanwad yr iaith Gymraeg, ond mae aelodau'r *Cwmni Bro* yn sicr bod cydblethiad yr iaith a'r gymuned yn gyfrwng yn natblygiad y gymuned, yn y gorffennol, y presennol a'r dyfodol.

## Adeiladu ar raglenni'r Llywodraeth

Ers dros chwarter canrif, roedd Bro Ffestiniog yn derbyn nifer o raglenni a phrosiectau a oedd yn cael eu harwain a'u cyllido gan gyrff y wladwriaeth: yr Undeb Ewropeaidd, mentrau llywodraeth ganolog a lleol. Er gwaethaf eu natur o'r brig i lawr, roedd rhai o'r mentrau yn llwyddiannus ac roedden nhw'n helpu i wella amodau yn yr ardal, yn arbennig felly'r gwaith i dacluso canol y dref, a oedd yn creu amgylchedd ffisegol a oedd yn fwy deniadol ar gyfer buddsoddi preifat a chymdeithasol.

Mae datblygu mentrau cymdeithasol a diwylliant o fenter gymdeithasol wedi bod yn broses hir, araf. Mae'r brif fenter gymdeithasol yn awr ymhell dros 20 oed. Bu hanes hir a dwys o weithgaredd gan Ganolfan Gydweithredol Cymru yn y dref ac mae sefydliadau lleol wedi arfer cael cefnogaeth allanol ar eu telerau eu hunain.

Yn allweddol, defnyddiodd y grŵp a oedd yn arwain Cymunedau'n Gyntaf yn y dref yr hyblygrwydd yng nghyfnodau cynharaf y rhaglen i ganolbwyntio ar amrediad eang o weithgareddau, gan gynnwys adeiladu mentrau cymdeithasol a chefnogi amrediad ehangach o weithgareddau amgylcheddol a hamdden nag mewn llawer o ardaloedd eraill. Mae'n dra annhebygol y byddai'r fersiwn fwy ragnodol o Gymunedau'n Gyntaf a ddaeth i rym ar ôl 2012 wedi bod yn amgylchedd mor ffrwythlon ar gyfer y gwaith ym Mro Ffestiniog. Mae wedi llwyddo i raddau helaeth oherwydd ei bod wedi darganfod swyddogaeth i bawb sydd eisiau cymryd rhan, yn hytrach na thargedu dim ond y "mwyaf anghenus' ac mae wedi anwybyddu cyn belled ag sy'n bosibl y ffiniau ward yr oedd y rhaglen yn gweithredu arnyn nhw, er mwyn gweithio drwy'r dref gyfan, sy'n gymuned llawer mwy naturiol.

Mae gwaddol Cymunedau'n Gyntaf yn y Blaenau wedi creu rhwydwaith cryf o bobl a sefydliadau, sy'n ymddiried yn ei gilydd a nifer o fentrau cymdeithasol sy'n datblygu. Y rhain yw'r conglfeini ar gyfer y gwaith sy'n awr yn mynd ymlaen, ond wrth gwrs, nid oedden nhw'n cael eu gwerthfawrogi (neu'n bwysicach yn cael eu deall) gan lywodraeth ganolog ar y pryd, ac felly nid oedden nhw'n cael eu gwerthuso yn iawn.

# HERIAU

Er gwaethaf y llwyddiannau anferth, mae'r gwaith ym Mro Ffestiniog yn wynebu nifer o heriau parhaus.

**Mae'r rhain yn cynnwys:**

- Absenoldeb cyfalaf i ddatblygu rhai syniadau busnes. Mae hyn yn cael ei waethygu gan y diffyg ymddiriedaeth ymysg rhai cyrff cyhoeddus mewn mentrau cymdeithasol o'i gymharu â mentrau preifat mwy, er gwaethaf y lefelau llawer uwch o fudd cymdeithasol y maen nhw'n eu darparu.
- Capasiti cyfyngedig i ddatblygu syniadau a mentrau newydd, gan fod cymaint o'r mentrau cymdeithasol yn cael eu rhedeg i'r capasiti uchaf.
- Mae enciliad y sector cyhoeddus oherwydd polisïau llymder wedi arwain at fwy o gyfrifoldeb ar gymunedau a chyrff gwirfoddol i ddarparu gwasanaethau lleol ac adfywio economïau lleol, fel y mae'r amrediad o wasanaethau sy'n cael eu rhedeg gan fentrau cymdeithasol yn Ffestiniog yn ei ddarlunio. Fodd bynnag, mae hyn i raddau helaeth heb ei gydnabod gan gyrff cyhoeddus, oherwydd dydyn nhw ddim yn cydnabod yr angen am y gwaith hwn ar gyfer hyrwyddo llesiant neu'u bod yn ei weld fel yr un gwerth â gwasanaethau tebyg sy'n cael eu rhedeg ganddyn nhw eu hunain.
- Mae diffyg hyblygrwydd rhai prosesau gwneud grantiau sy'n cyfeirio sefydliadau i ddilyn agendâu allanol yn hytrach na blaenoriaethau cymunedol, hyd yn oed pan fo dull sy'n seiliedig ar y gymuned yn gallu cynhyrchu llawer mwy o waith integredig. Rhaid i'r cymorth ar gyfer metrau sy'n canolbwyntio ar leoliadau alluogi mudiadau lleol i fod yn hyblyg, gan integreiddio gwaith y mudiadau gwahanol.



# BETH YW'R CAM NESAF?

Mae Cwmni Bro yn trafod y posibilrwydd o adeiladu tyrbin gwynt cymunedol gyda chwmni preifat lleol. Mae'r cwmni preifat yn berchen ar dir sy'n addas ar gyfer y prosiect ac mae'n awyddus i gydweithredu â menter gymdeithasol wrth wneud hyn.

Mae'r gymdeithas hanes leol yn trefnu arddangosfeydd treftadaeth yn ystod yr haf ac mae'n awyddus i ddod o hyd i adeilad a fyddai'n gartref parhaol i arddangos treftadaeth leol. Byddai hyn yn dathlu hanes a threftadaeth yr ardal ac yn darparu atyniad arall ar gyfer y nifer cynyddol o ymwelwyr sy'n dod i Fro Ffestiniog.

Mae'r Cwmni Bro hefyd yn ystyried sefydlu 'Velorail' a llwybr ar gyfer beiciau a llwybrau cerdded ochr yn ochr, i redeg ar y traciau rheilffordd segur rhwng Blaenau Ffestiniog a Thrawsfynydd. Pe bai'r prosiect hwn yn cael ei ddatblygu, byddai'n atyniad twristiaeth newydd ac unigryw a byddai'n darparu llwybr iach, diogel ar gyfer pobl leol.

Yn ehangach, maen nhw'n ystyried trefnu arolwg ynni ar gyfer yr ardal er mwyn asesu'r posibilrwydd o ddatblygu ynni adnewyddadwy a gweithio gyda darparwyr ynni mawr yn y sector preifat sydd â chanolfannau'n lleol. Maen nhw wedi perswadio grŵp o gynghorau cymuned yn yr ardal ehangach i sefydlu cwmni buddiannau cymunedol (CBC) fel modd o gyflwyno prosiectau o'r fath.

Mae'r Cwmni Bro hefyd yn gweithio gyda chyflogwyr lleol a chyrff addysg i gynnal archwiliad sgiliau lleol, gyda golwg ar nodi pa nodweddion y mae pobl ifanc eu hangen i gael swyddi lleol a llenwi bylchau sgiliau a wynebir gan gyflogwyr lleol.

> "Mae'n ardal o amddifadedd cymdeithasol gyda llawer o heriau a synnwyr o bellter oddi wrth weithgareddau a gwasanaethau ar gyfer pobl ifanc. Rydym yn edrych ymlaen at weithio gyda'n gilydd ar lefel uwch er mwyn rhoi gwell cefnogaeth i'n pobl ifanc. Sut ydym ni'n cyfrannu at y jig-so i symud ein cymuned ymlaen? Mae gennym ni adnoddau ac arbenigedd yma [yn yr ysgol] ac mae gennym ni bobl yn y gymuned ehangach sydd ag arbenigedd ac adnoddau sy'n wahanol i'n rhai ni, ac rydym ni angen dod â nhw at ei gilydd."
>
> **Dewi Lake, Pennaeth Ysgol y Moelwyn**



## Amdanom ni

Mae'r Ymddiriedolaeth Adeiladu Cymunedau yn cefnogi pobl a lleoedd i ddatblygu atebion ar gyfer materion lleol, gwella llesiant, codi dyheadau ac adeiladu cymunedau cryfach. Mae'n rhedeg rhaglen Buddsoddi Lleol y Loteri Fawr, ac mae'n gweithio gyda 13 o gymunedau difreintiedig drwy Gymru. **www.yac.cymru**

## Diolch

Diolch i Gwmni Bro Ffestiniog am eu cymorth wrth gynhyrchu'r astudiaeth achos hon. **www.CwmniBro.Cymru**

### Cyfeiriadau

[1] Yn ôl asesiad llesiant lleol Gwynedd a Môn 2018

[2] Gwerthuso effaith economaidd y mentrau cymdeithasol sy'n gysylltiedig â Chwmni Bro Blaenau Ffestiniog ac ardaloedd cyfagos – Adroddiad Interim – Elin Hywel